WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Sicrhau bod gwasanaethau ataliol yn targedu'r teuluoedd mwyaf agored i niwed ym Mlaenau Gwent nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynllun gofal a chymorth – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1215A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw Aelod, Cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n briodol, yr archwilydd penodedig yw'r trydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Dave Wilson, Allison Rees, Lisa McCarthy, a'r rheolwr rhaglen Non Jenkins dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad Manwl

Rhan Un – Canfyddiadau'r Archwiliad

Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu'r cam 'Sicrhau bod Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar a Chwarae yn sicrhau bod gwasanaethau ataliol yn targedu'r teuluoedd mwyaf agored i niwed ym Mlaenau Gwent nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynllun gofal a chymorth' ond mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach 7

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth drylwyr am y materion a'r heriau byrdymor a hirdymor ond nid oes ganddo strategaeth hirdymor gynaliadwy 7

Mae'r Cyngor yn deall anghenion teuluoedd ac mae'n gweithio gyda hwy i gyfyngu ar eu problemau neu i'w hatal rhag gwaethygu, ond gallai rhaglenni ataliol gael eu defnyddio'n fwy eang ar draws gwasanaethau'r Cyngor 7

Er bod y Cam yn cysylltu â strategaethau, Gwasanaethau Cymdeithasol Plant sydd â pherchnogaeth arno o hyd; mae angen i'r Cyngor wneud mwy i harneisio cymorth cyfarwyddiaethau eraill i roi cymorth i'w gyflawni 9

Mae cydweithio'n elfen allweddol o ddull ymyrryd yn gynnar ac atal y Cyngor ond mae'n ymwybodol bod mwy ganddo i'w wneud 11

Gall y Cyngor ddangos rhai cryfderau o ran ei ddull o gynnwys rhieni a rhanddeiliaid eraill; ceir meysydd y gallai'r Cyngor eu cryfhau ymhellach 12

Rhan Dau – Ymateb y Cyngor 13

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 17

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhalion ni'r Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. pennu eu hamcanion llesiant; a

b. cymryd camau i'w cyflawni.

Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn bob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

3 Yn ystod 2018-19 mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol.

4 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad, 'Myfyrio ar Flwyddyn Un - Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)'. Daeth i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid y ffordd y maent yn gweithio.

5 Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau yn ystod 2018-19 fe wnaethom ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys trwy ein gwaith peilot yn ystod 2017-18. Fe wnaethom hefyd gydweithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

6 Gan bod y gwaith rhagarweiniol ym mlwyddyn un wedi cynnwys ystyried sut yr oedd cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant, prif ffocws y gwaith hwn yw'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

7 Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom yn ystod y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Ebrill 2019.

8 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o *Sicrhau bod Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar a Chwarae yn sicrhau bod gwasanaethau ataliol yn targedu'r teuluoedd mwyaf agored i niwed ym Mlaenau Gwent nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynllun gofal a chymorth*, cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

9 Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

## Yr hyn y gwnaethom ei archwilio

10 Fe archwilion ni i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth Sicrhau bod Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar a Chwarae yn sicrhau bod gwasanaethau ataliol yn targedu'r teuluoedd mwyaf agored i niwed ym Mlaenau Gwent nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynllun gofal a chymorth.

11 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol:

### Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn nodi'r 'pum ffordd o weithio' a ddiffinnir yn nogfen 'Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[1]' Llywodraeth Cymru.

| Y Pum Ffordd o Weithio |
|---|
| **Hirdymor** |
| Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal** |
| Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio** |
| Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio** |
| Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys** |
| Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

12 Canfu ein harchwiliad fel a ganlyn: **Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu'r cam 'Sicrhau bod Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar a Chwarae yn sicrhau bod gwasanaethau ataliol yn targedu'r teuluoedd mwyaf agored i**

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion, Llywodraeth Cymru (2015)

**niwed ym Mlaenau Gwent nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynllun gofal a chymorth' ond mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach**.

# Rhan Un – Canfyddiadau'r archwiliad

## Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu'r cam 'Sicrhau bod Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar a Chwarae yn sicrhau bod gwasanaethau ataliol yn targedu'r teuluoedd mwyaf agored i niwed ym Mlaenau Gwent nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynllun gofal a chymorth' ond mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach

### Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth drylwyr am y materion a'r heriau byrdymor a hirdymor ond nid oes ganddo strategaeth hirdymor gynaliadwy

#### Yr hyn y chwilion ni amdano

13 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

14 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuom

15 Canfuom y cryfderau canlynol:

---

[2] Gweler Atodiad 1

- mae'r Cyngor yn defnyddio ymchwil, megis adroddiad Cordis Bright (2013) a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) wrth gynllunio ar gyfer yr hirdymor;
- mae'r Cyngor yn defnyddio cyllid grant a ffrydiau cyllido partneriaid yn dda, er enghraifft cyllid adfywio  sefydlu rôl gweithiwr cymorth sy'n gweithio'n benodol gyda Thadau ac mae'r Cyngor yn ystyried cyllid y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer therapi chwarae i wneud gwahaniaeth hirdymor i deuluoedd; ac
- mae cyfradd yr ail-atgyfeiriadau at y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn lleihau. Ceir tystiolaeth gychwynnol bod y rhaglen yn gweithio.

16 Canfuom y cyfleoedd canlynol i wella:

- mae'r Cyngor wedi dechrau ystyried sut y gall sicrhau cydnerthedd hirdymor y gwaith ymyrryd yn gynnar ac atal yn erbyn cefnlen cyllid byrdymor ac adweithiol;
- mae 'strategaeth ymyrryd yn gynnar ac atal' y Cyngor ar ffurf drafft. Mae'r strategaeth ddrafft yn un am dair blynedd yn unig ac ar hyn o bryd mae'n cynnwys camau gweithredu lefel uchel;
- nid oes gan y Cyngor strategaeth hirdymor eto; ac
- nid yw'r Cyngor yn modelu costau hirdymor peidio ag ymyrryd yn gynnar i ddwyn manteision hirdymor.

## Mae'r Cyngor yn deall anghenion teuluoedd ac mae'n gweithio gyda hwy i gyfyngu ar eu problemau neu i'w hatal rhag gwaethygu, ond gallai rhaglenni ataliol gael eu defnyddio'n fwy eang ar draws gwasanaethau'r Cyngor

### Yr hyn y chwilion ni amdano

17 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth.
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- gwaith i fonitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

18 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

[3] Gweler Atodiad 1

## Yr hyn a ganfuom

19 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae gan swyddogion y siaradon ni gyda hwy ddealltwriaeth ardderchog am yr angen i feithrin teuluoedd mwy cydnerth, amddiffyn plant rhag profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a lleihau'r angen am ymyriad statudol;
- mae'r Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau partner i sefydlu dull amlasiantaeth i gefnogi teuluoedd yn y gymuned. Enghraifft dda yw'r mewnbwn Gweithwyr Cymdeithasol a seicoleg sydd ar gael i'r holl ysgolion;
- mae'r Cyngor yn targedu'r grwpiau mwyaf agored i niwed, e.e. plant a arferai fod yn derbyn gofal sy'n dod yn rhieni. Mae'r rhieni newydd hyn yn cael eu cynnwys yn awtomatig yn y rhaglen Dechrau'n Deg ni waeth pa un a ydynt yn byw mewn un o'r wyth ardal Dechrau'n Deg ai peidio;
- fe sefydlodd y Cyngor 'Dîm Cefnogi Newid' sy'n gweithio gyda theuluoedd risg uchel; ac
- mae gan yr holl deuluoedd Teuluoedd yn Gyntaf bellach Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF). Mae hwn yn creu trosolwg fwy ystyrlon o anghenion a chryfderau'r teulu ac yn goleuo'r cynllun ymyrryd yn well. Mae'n lleihau atgyfeiriadau ac yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd teuluoedd yn cael eu hanwybyddu. Mae swyddogion bellach yn cynhyrchu pecynnau cymorth i deuluoedd sydd wedi'u haddasu'n fwy at ofynion unigol.

20 Canfuom y cyfleoedd canlynol i wella:

- nid yw'r Cyngor eto'n meddu ar yr wybodaeth sy'n dangos arbedion o ran costau o ganlyniad i'r rhaglenni atal hyn, ond dywedodd wrthym fod offeryn arbed costau ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf wrthi'n cael ei ddatblygu ac y gallai helpu gyda hyn;
- gallai'r Cyngor ddefnyddio data ar berfformiad yn well i fonitro cynnydd a chefnogi gwelliant parhaus, oherwydd er ei fod yn gweithio i gyrraedd teuluoedd sy'n agored iawn i niwed, nid yw eto'n glir sut y bydd y Cyngor yn ffurfio barn ynglŷn â llwyddiant gwaith ymyrryd yn gynnar ac atal;
- mae'r fersiwn ddrafft o'r strategaeth ymyrryd yn gynnar ac atal yn cynnwys mesurau perfformiad ond nid yw'n cynnwys targedau sy'n amlygu uchelgais y Cyngor; ac
- nid yw'r agenda atal wedi'i gwreiddio'n dda yn holl wasanaethau'r Cyngor.

## Er bod y Cam yn cysylltu â strategaethau, Gwasanaethau Cymdeithasol Plant sydd â pherchnogaeth arno o hyd; mae angen i'r Cyngor wneud mwy i harneisio cymorth cyfarwyddiaethau eraill i roi cymorth i'w gyflawni

## Yr hyn y chwilion ni amdano

21 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried y canlynol:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

22 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

## Yr hyn a ganfuom

23 Canfuom y cryfderau canlynol:

- perthnasoedd gweithio effeithiol yng Ngwasanaethau Plant y Cyngor;
- mae ymyrryd yn gynnar ac atal yn rhan hanfodol o amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) – 'bod pawb yn cael y dechrau gorau mewn bywyd'. Rhoddwyd ystyriaeth i'r saith nod llesiant cenedlaethol;
- mae'r fersiwn ddrafft o'r strategaeth ymyrryd yn gynnar ac atal yn gyson â'r canlynol:
  - Symud Cymru Ymlaen 2016-2021. Mae'r cynllun hwn yn disgrifio nodau clir ar gyfer rhoi'r dechrau gorau un mewn bywyd i bob plentyn yng Nghymru, ac ar gyfer cynorthwyo teuluoedd i greu amgylcheddau sefydlog, meithringar lle gall plant ffynnu;
  - Astudiaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACES). Mae'r astudiaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi'r angen am ymyrryd yn gynnar ac atal; a
  - Cymru Well Wales – Y 1000 o ddiwrnodau cyntaf. Derbynnir bellach mai'r 1,000 o Ddiwrnodau Cyntaf (F1000D) o fod yn rhiant yw'r cyfnod mwyaf arwyddocaol yn natblygiad plentyn.

24 Canfuom y cyfle canlynol i wella:

- mae'n amlwg mai'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant sy'n dal i fod â pherchnogaeth ar y Cam hwn, sy'n awgrymu nad yw'r Cyngor wedi cymryd y cyfle eto i harneisio adnoddau ehangach y Cyngor i gynllunio a chyflawni'r Cam.

[4] Gweler Atodiad 1

# Mae cydweithio'n elfen allweddol o ddull ymyrryd yn gynnar ac atal y Cyngor ond mae'n ymwybodol bod mwy ganddo i'w wneud

## Yr hyn y chwilion ni amdano

25 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

26 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

## Yr hyn a ganfuom

27 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae atal ac ymyrryd yn gynnar yn rhan hanfodol o flaenoriaeth y BGC bod 'pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd'.
- mae'r Cyngor yn cydweithio gydag ystod o bartneriaid allanol fel bod teuluoedd yn gallu cael mynediad at y cymorth y mae ei angen arnynt. Er enghraifft:
  - seicolegydd wedi'i recriwtio i roi cymorth i weithwyr cymorth asesu atgyfeiriadau ar y cyd;
  - mae Heddlu Gwent yn ystyried sut y mae'r heddlu'n ymateb i alwadau ynghylch bod yn agored i niwed a'r camau gweithredu dilynol gan yr Heddlu; a hefyd
  - y gwasanaeth iechyd yw'r partner mwyaf gyda Dechrau'n Deg – mae unrhyw enedigaethau newydd yn cael eu hadnabod gan dîm gweinyddol y gwasanaeth Iechyd a'r tîm Dechrau'n Deg yn cael ei hysbysu – nid yw Dechrau'n Deg yn methu ag adnabod unrhyw deuluoedd sy'n gymwys i gael gwasanaethau.

28 Canfuom y cyfleoedd canlynol i wella:

- Cyflwynodd grŵp cynllunio F1000D (a sefydlwyd ym mis Medi 2018) bedwar argymhelliad i'r BGC ym mis Hydref 2018 sy'n dal heb gael eu gweithredu:

---

[5] Gweler Atodiad 1

- sefydlu Cymuned Ymarfer F1000D ym Mlaenau Gwent;
- archwilio sut y gallai fod mwy o aliniad llorweddol ac integreiddio rhwng y gwasanaethau F1000d fel eu bod yn gweithredu'n fwy fel rhaglen neu system, yn hytrach na gwasanaethau ar wahân;
- archwilio maint yr angen am wasanaethau estynedig i deuluoedd y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg ym Mlaenau Gwent; ac
- ystyried ystod o ddatrysiadau i fynd i'r afael â materion recriwtio a chadw yng ngwasanaeth ymwelwyr iechyd Blaenau Gwent.

- Nid yw Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae Blaenau Gwent wedi creu Cymuned Ymarfer F1000D lle gellir rhannu arfer da a rhannu, gweithredu a gwerthuso dulliau cydweithredol eto. Mae nifer dda'n mynychu'r bartneriaeth o blith yr holl wasanaethau arbenigol sydd â rôl yn F1000D.

## Gall y Cyngor ddangos rhai cryfderau o ran ei ddull o gynnwys rhieni a rhanddeiliaid eraill; ceir meysydd y gallai'r Cyngor eu cryfhau ymhellach

### Yr hyn y chwilion ni amdano

29 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

30 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cynnwys' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[6]

### Yr hyn a ganfuom

31 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae fforymau i rieni mewn hybiau cymunedol yn gweithredu fel pyst gwrando ac yn goleuo gwaith yn y dyfodol;
- grŵp caeëdig ar Facebook i rieni. Llais i rieni;

[6] Gweler Atodiad 1

- Mae Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae (PDBCGPaCh) yn bartneriaeth strategol rhwng y blynyddoedd cynnar ac atal o fewn cynghorau ac yn rhwydwaith rhannu. Ceir gwerthusiad 'cynt ac wedyn' gydag adborth yn dylanwadu ar newidiadau i'r modd y darperir gwasanaethau;
- gwerthusiad annibynnol gan Brifysgol Caerwrangon o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf: fe siaradon nhw gyda defnyddwyr lleol, ac roedd yr adborth ar y Rhaglen yn gadarnhaol iawn; ac
- fe drefnodd BGC Blaenau Gwent ddigwyddiad Ymgysylltu â Systemau F1000D ym mis Gorffennaf 2018. Cafodd 13 o sefydliadau partner eu cynrychioli – 91 o gynrychiolwyr.

32 Canfuom y cyfleoedd canlynol i wella:

- gallai'r Cyngor wneud mwy i gynnwys plant a theuluoedd mewn angen nad ydynt yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg y mae arnynt angen gwasanaethau ymyrryd yn gynnar neu ataliol i atal problemau rhag gwaethygu;
- nid yw'r Cyngor wedi rhoi'r argymhellion ar gyfer y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (gwerthusiad Prifysgol Caerwrangon) ar waith yn llawn eto:
  - rhoi ystyriaeth bellach i gynaliadwyedd Teuluoedd yn Gyntaf, yn enwedig mewn perthynas â'r cynnydd a wneir gan deuluoedd; ac
  - ystyried sut orau i gynorthwyo teuluoedd i ddatblygu eu cydnerthedd eu hunain a chreu rhwydweithiau cymunedol. Ymgysylltu â phartneriaid i drafod.
  - 

# Rhan Dau – Ymateb y Cyngor

33 Yn dilyn cwblhau ein gwaith maes fe gyflwynon ni ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ym mis Ebrill 2019. Roedd y Pennaeth Gwasanaeth, y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Dechrau'n Deg, Gofal Plant, y Blynyddoedd Cynnar a Chwarae, y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer timau ardal, y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf, Asesiad Cychwynnol a Chyngor (Diogelu) a'r Tîm 14 a throsodd, y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer y Tîm Lleoliadau, y Tîm Cefnogi Newid a Chyswllt, y Rheolwr Tîm Teuluoedd yn Gyntaf, y Rheolwr Tîm Dechrau'n Deg a'r Swyddog Perfformiad Corfforaethol yn bresennol yn y gweithdy.

34 Yn y gweithdy hwn dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i drafodaethau yn y gweithdy, a myfyrio pellach ar ein canfyddiadau, mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol.

## Cynnwys

- Y Gymuned:
  - Creu rôl ymgysylltu â'r gymuned – cydweithio ag asiantaethau a rhieni mewn ysgol gynradd leol (Teuluoedd yn Gyntaf).
  - Ystyried ffyrdd o ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth i dargedu gwaith ymgysylltu â'r gymuned.
  - Gweithdy i ddatblygu dealltwriaeth am anghenion y gymuned i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau priodol.
  - Gan adeiladu ar y gwerthusiad annibynnol o Teuluoedd yn Gyntaf rydym yn defnyddio'r un model i werthuso blwyddyn gyntaf y Tîm Cefnogi Newid a hefyd yn cynnwys teuluoedd yn y gwerthusiad o Asesiad Cychwynnol a Chyngor.
  - Grŵp Llywio Teuluoedd yn Gyntaf – gwella cyfranogiad yn y grŵp/cydweithio.
- Cymheiriaid:
  - Mae'r Heddlu'n gweithio gyda Teuluoedd yn Gyntaf – gan newid y ffordd y mae'r Heddlu'n gweithio gyda'r rhai sy'n agored i niwed - adnoddau
  - Ystyried ffyrdd o gynnwys y Cyngor ehangach mewn modelau gweithio sy'n seiliedig ar 'ddeilliannau' ac sy'n ymwneud â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
  - Ystyried partneriaid a sut yr ydym yn eu cynnwys mewn modelau gweithio sy'n seiliedig ar 'ddeilliannau'.
- Y model camu i lawr wedi'i adolygu ac yn ei le – Teuluoedd yn Gyntaf/Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Gweithio gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol i reoli/cefnogi'r broses o adael gofal.

## Cydweithio

- Canlyn arni â'r camau gweithredu o ran F1000D. Rhaglen llunio ar y cyd.
- Tynnu sylw'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol at yr angen i godi proffil niferoedd y plant sy'n derbyn gofal a chynnwys hyn yn y Cynllun Rhanbarthol.
- Pwynt Mynediad Sengl ar gyfer Llesiant Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant (SPACE Well-being):
  - Set ddata eglur i ddangos pa wahaniaeth y mae/bydd y panel yn ei wneud.
  - Dangos ymateb cyflym i atgyfeiriadau am bod y panel yn cwrdd yn wythnosol.

  - Defnyddio offer Pellter a deithiwyd.
  - Dangos y newid yn y system o ganlyniad i leihau nifer yr ailatgyfeiriadau.
  - Cael dealltwriaeth fwy eglur/manwl am yr hyn y gall pob asiantaeth ei ddarparu.

## Hirdymor

- Mae angen i'r Cyngor ddatblygu Strategaeth Ymyrryd yn Gynnar ac Atal hirdymor. Y Tîm Arwain Corfforaethol i drafod a chytuno ar ffordd ymlaen.
- Defnyddio'r Grant Plant a Chymunedau i gyflawni blaenoriaethau hirdymor y Cyngor. Syniad: cyflwyno Dechrau'n Deg ar draws y Cyngor.
- Sicrhau ein bod yn ehangu ein gorwelion gyda phartneriaid e.e. y Gronfa Trawsnewid mewn Iechyd.
- Gweithio gydag awdurdodau eraill i ddatblygu datrysiadau hirdymor i flaenoriaethau.
- Wrth adolygu'r Strategaeth Gostwng Plant sy'n Derbyn Gofal meddwl am yr hirdymor: deng mlynedd a mwy.

## Integreiddio

- Gweledigaeth gyffredin gan y Cyngor o ran yr hyn yr ydym yn ceisio'i wneud/cysondeb o ran nodau ar draws y Cyngor. O'r gwaelod i fyny yn hytrach nag o'r brig i lawr (modelau i gael eu datblygu).
- Arolwg ar draws y Cyngor i ganfod pa mor dda y mae pobl yn deall y weledigaeth a'u cyfraniad iddi.
- Pwynt Mynediad Sengl ar gyfer Llesiant Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant (SPACE Well-being):
  - Rolau/cyfrifoldebau, ymrwymiad amlasiantaeth, ledled Gwent gyfan. Defnyddio fel enghraifft flaenllaw ar gyfer cysondeb rhwng nodau.
  - Grant Plant a Chymunedau (cyfuno saith grant gwahanol mewn un) yn darparu ar gyfer hyblygrwydd o ran sut y defnyddir yr arian i gyflawni llesiant.

## Atal

- Datblygu set ddata i ddangos llwyddiant Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.
- Datblygu system i ddangos arbedion o ran costau o ganlyniad i raglenni atal.
- Adolygu'r Strategaeth Atal ac Ymyrryd yn Gynnar i'w gwneud yn un hirdymor.
- Diffinio sut y mae'r weledigaeth hirdymor yn edrych yn y ddwy strategaeth.
- Codi dyheadau cymunedau.

- Manteisio ar gyfuno’r amryw grantiau.
- Parhau i werthuso Effeithiolrwydd y Tîm Cefnogi Newid. Addasu arfer mewn timau eraill i adeiladu ar wersi o lwyddiant mewn timau eraill. Gwreiddio a datblygu’r hyfforddiant deilliannau gan ddefnyddio’r Cynllun Mentora.
- Gwreiddio’r Offeryn Arbed Costau ar draws gwasanaethau ataliol. Bydd yr wybodaeth o brosesau gwerthuso’n goleuo ymarfer/adnoddau yn y dyfodol (yn genedlaethol).

35 Gallwn fonitro cynnydd y Cyngor o ran rhoi’r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i’r afael â’r materion yr ydym wedi’u hadnabod yn ein canfyddiadau.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

### Arddangosyn 1: Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

1 Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod. Nid ydym wedi defnyddio'r dangosyddion fel rhestr wirio. . Dylid eu hystyried yn ddangosyddion. Fe wnaethant ein helpu i ddod i gasgliadau wrth ystyried i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn? |
|---|
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru